Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**Adroddiad: CLA(4)-11-13 : 22 Ebrill 2013**

Mae'r Pwyllgor yn cyflwyno'r adroddiad a ganlyn i'r Cynulliad:

## 1. Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

*Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol*

**CLA241 - Rheoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) a Chymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) (Diwygio) (Cymru) 2013**
Y weithdrefn negyddol.
Fe'u gwnaed ar: 15 Mawrth 2013.
Fe'u gosodwyd ar: 18 Mawrth 2013.
Yn dod i rym ar: 8 Ebrill 2013.

**CLA242 - Rheoliadau Cymorth Gwladol a Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2013**
Y weithdrefn negyddol.
Fe'u gwnaed ar: 15 Mawrth 2013.
Fe'u gosodwyd ar: 18 Mawrth 2013.
Yn dod i rym ar: 8 Ebrill 2013.

**CLA243 – Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) (Diwygiadau Amrywiol) 2013**

Y weithdrefn negyddol.

Fe'u gwnaed ar: 15 Mawrth 2013.

Fe'u gosodwyd ar: 18 Mawrth 2013.

Yn dod i rym ar: 8 Ebrill 2013.

**CLA244 – Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Darpariaethau Ychwanegol ar gyfer Diystyriadau Disgownt) (Diwygio) (Cymru) 2013**

Y weithdrefn negyddol.

Fe'u gwnaed ar: 18 Mawrth 2013.

Fe'u gosodwyd ar: 18 Mawrth 2013.

Yn dod i rym ar: 8 Ebrill 2013.

**CLA246 – Rheoliadau Plant (Llety Diogel) (Diwygio) (Cymru) 2013**

Y weithdrefn negyddol.

Fe'u gwnaed ar: 19 Mawrth 2013.

Fe'u gosodwyd ar: 20 Mawrth 2013.

Yn dod i rym ar: 18 Ebrill 2013.

**CLA248 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau Etc) (Cymru) (Diwygio) 2013**

Y weithdrefn negyddol.

Fe'u gwnaed ar: 21 Mawrth 2013.

Fe'u gosodwyd ar: 22 Mawrth 2013.

Yn dod i rym ar: 12 Ebrill 2013.

**CLA249 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Diwygiadau Canlyniadol Diwygio Lles) (Cymru) 2013**

Y weithdrefn negyddol.
Fe'u gwnaed ar: 21 Mawrth 2013.
Fe'u gosodwyd ar: 22 Mawrth 2013.
Yn dod i rym ar: 12 Ebrill 2013.

**CLA250 – Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Cyfraniadau) (Diwygio) 2013**
Y weithdrefn negyddol.
Fe'i gwnaed ar: 26 Mawrth 2013.
Fe'i gosodwyd ar: 27 Mawrth 2013.
Yn dod i rym ar: 1 Ebrill 2013.

**CLA251 – Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru) (Cyfraniadau) (Diwygio) 2013**
Y weithdrefn negyddol.
Fe'i gwnaed ar: 26 Mawrth 2013.
Fe'i gosodwyd ar: 27 Mawrth 2013.
Yn dod i rym ar: 1 Ebrill 2013.

**CLA252 – Rheoliadau Rheoliadau Adeiladu Etc (Diwygio) (Cymru) 2013**
Y weithdrefn negyddol.
Fe'u gwnaed ar: 26 Mawrth 2013.
Fe'u gosodwyd ar: 28 Mawrth 2013.
Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(4).

Nododd y Pwyllgor yr offerynnau ac roedd yn fodlon â hwy.

## 2. Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

Offerynnau’r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol

**CLA247 - Gorchymyn Corfforaeth Addysg Uwch Prifysgol Cymru, Casnewydd (Diddymu) 2013**

Y weithdrefn negyddol.
Fe’i gwnaed ar: 19 Mawrth 2013.
Fe’i gosodwyd ar: 20 Mawrth 2013.
Yn dod i rym ar: 11 Ebrill 2013.

Nododd y Pwyllgor y pwyntiau adrodd ar gyfer y Rheoliadau hyn (gweler Atodiad 1 isod) ac roeddent yn fodlon â hwy.

**CLA245 - Gorchymyn y Dreth Gyngor (Diystyriadau Disgownt) (Diwygio) (Cymru) 2013**

Y weithdrefn negyddol.
Fe’i gwnaed ar: 18 Mawrth 2013.
Fe’i gosodwyd ar: 18 Mawrth 2013.
Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1.

Nododd y Pwyllgor y pwyntiau adrodd ar gyfer y Rheoliadau hyn (gweler Atodiad 2 isod) ac roeddent yn fodlon â hwy.

Offerynnau’r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol Cyfansawdd

**CLA240 - Rheoliadau Addysg (Benthyciadau Myfyrwyr) (Ad-daliad) (Diwygio) 2013**

Y weithdrefn penderfyniad negyddol cyfansawdd.
Fe’u gwnaed ar: 13 Mawrth 2013.
Fe’u gosodwyd ar: 14 Mawrth 2013.
Yn dod i rym ar: 6 Ebrill 2013.

Nododd y Pwyllgor y pwyntiau adrodd ar gyfer y Rheoliadau hyn (gweler Atodiad 3 isod) ac roeddent yn fodlon â hwy.

*3. Yn unol â Rheol Sefydlog 17.42(vi), penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod er mwyn iddo allu trafod ei adroddiad drafft ar ei Ymchwiliad i Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.*

**4. Tystiolaeth mewn perthynas â'r Adolygiad o Bwerau Gweinidogion Cymru ym Miliau'r DU**

Bu'r Pwyllgor yn casglu tystiolaeth gan Carwyn Jones AC, y Prif Weinidog.

**5. Tystiolaeth mewn perthynas â'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru).**

Bu'r Pwyllgor yn casglu tystiolaeth gan Carwyn Jones AC, y Prif Weinidog.

*Yn unol â Rheol Sefydlog 17.42(vi), cytunodd y Pwyllgor i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod i drafod y dystiolaeth o'r sesiynau blaenorol.*

Bydd trawsgrifiad o gyfarfod y Pwyllgor ar gael ar ei wefan yn:

**David Melding AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**25 Ebrill 2013**

Atodiad 1

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**Teitl: Gorchymyn Corfforaeth Addysg Uwch Prifysgol Cymru, Casnewydd (Diddymu) 2013**

**Gweithdrefn: Negyddol**

*Mae'r Gorchymyn hwn yn diddymu'r gorfforaeth addysg uwch a sefydlwyd i redeg Prifysgol Cymru, Casnewydd ("Prifysgol Casnewydd"). Mae hefyd yn darparu i'r holl eiddo, hawliau a rhwymedigaethau yr oedd gan Brifysgol Casnewydd hawlogaeth iddynt neu yr oedd yn ddarostyngedig iddynt yn union cyn ei diddymu, gael eu trosglwyddo i Gorfforaeth Addysg Uwch Prifysgol Morgannwg.*

**Craffu technegol**

*Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:*

**Craffu ar rinweddau**

*Nodwyd y pwynt canlynol i fod yn destun adroddiad mewn perthynas â'r offeryn hwn.*

*Gwneir y Gorchymyn hwn drwy arfer pwerau yn adran 128 o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 sy'n caniatau diddymu corfforaethau addysg uwch a fu gynt yn gyfrifoldeb awdurdodau lleol. Maent yn gymwys i Brifysgol Casnewydd, gan bod gwreiddiau'r sefydliad hwnnw mewn cyrff lleol a ddaeth yn Goleg Addysg Uwch Gwent yn 1975 cyn dod yn Brifysgol Cymru, Casnewydd, yn 1996.*

*Defnyddiwyd yr adran ddwywaith cyn hyn yng Nghymru – pan unwyd Coleg Amaethyddol Cymru â Choleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, yn 1995, a'r Coleg Normal ym Mangor â Choleg Prifysgol Gogledd Cymru yn 1996.*

*[Rheol Sefydlog 21.3(ii) - ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu <u>ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.]</u>*

Atodiad 2

## Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## CLA245 - Gorchymyn y Dreth Gyngor (Diystyriadau Disgownt) (Diwygio) (Cymru) 2013

**Gweithdrefn: Negyddol**

Mae Gorchymyn y Dreth Gyngor (Diystyriadau Disgownt) 1992 ("Gorchymyn 1992") yn rhagnodi amodau y mae'n rhaid i bersonau sydd â nam meddyliol difrifol a gwahanol bersonau o ddisgrifiadau eraill eu cyflawni er mwyn cael eu diystyried at ddibenion disgowntiau'r dreth gyngor y mae adran 11 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn rhagnodi ar eu cyfer.

Er mwyn i berson sydd â nam meddyliol difrifol gael ei ddiystyried at ddibenion disgowntiau'r dreth gyngor mae Gorchymyn 1992 yn rhagnodi bod yn rhaid iddo fod yn derbyn budd-dal cymwys. Mae erthygl 2(a) a (b) yn diwygio amodau Gorchymyn 1992 fel bod y rhan o'r taliad annibyniaeth bersonol sydd ar gyfer byw bob dydd yn cael ei chynnwys o fewn y diffiniad o fudd-dal cymwys.

Mae erthygl 2(c) yn diwygio ymhellach Orchymyn 1992 er mwyn cynnwys credyd cynhwysol, sy'n cynnwys swm i'w dalu i berson oherwydd gallu cyfyngedig y person hwnnw i weithio neu allu cyfyngedig i wneud gweithgareddau gwaith neu weithgareddau sy'n ymwneud â gwaith, yn y diffiniad o fudd-dal cymwys.

### Craffu technegol

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

### Craffu ar rinweddau

Nodwyd y pwynt canlynol i fod yn destun adroddiad mewn perthynas â'r offeryn hwn.-

Mae'r Gorchymyn yn ychwanegu dau fudd-dal at y rhestr o fudd-daliadau sy'n cyfiawnhau diystyru personau at ddibenion y dreth gyngor. Felly efallai y gellid disgwyl y byddai hyn yn ychwanegu at nifer y personau a ddiystyrid, ac felly'n lleihau incwm awdurdodau lleol. Ni cheir esboniad yn y Memorandwm Esboniadol ac nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i baratoi ar gyfer y Gorchymyn hwn

Felly nid oes unrhyw ddadansoddiad ar gael o effaith y Gorchymyn hwn ar yr awdurdodau lleol.

{Rheol Sefydlog 21.3(ii) - ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.]

Atodiad 3

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**Teitl: Rheoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) (Ad-dalu) (Diwygio) 2013**

**Gweithdrefn: Negyddol**

*Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) (Ad-dalu) 2009 (Offeryn Statudol 2009/470) ('y Prif Reoliadau'). Y Prif Reoliadau sy'n llywodraethu ad-dalu benthyciadau i fyfyrwyr sy'n dibynnu ar incwm a gafodd eu talu i fyfyrwyr o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (p.30). Mae'r Rheoliadau'n gwneud nifer o welliannau technegol manwl, sydd wedi'u hesbonio yn y Memorandwm Esboniadol a'r Nodyn Esboniadol i'r Rheoliadau.*

**Materion craffu: technegol**

*Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:*

1. *Oherwydd eu bod yn rheoliadau cyfansawdd sy'n destun gweithdrefn seneddol San Steffan, mae'r Rheoliadau hyn wedi'u gwneud yn Saesneg yn unig.*

*[Rheol Sefydlog 21.2(ix) – nad yw'r offeryn wedi'i wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg.]*

**Rhinweddau: craffu**

*Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:*

1. *Caiff y rhan fwyaf o offerynnau cyfansawdd eu gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Lloegr a gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru. Yn yr achos hwn, nid yw'r pwerau galluogi mor eglur â hynny. Cafodd pwerau adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 eu trosglwyddo'n rhannol yn unig i'r Cynulliad Cenedlaethol gan adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004. Cadwodd yr Ysgrifennydd Gwladol lawer o'r pwerau am eu bod yn ymwneud â'r system dreth ar gyfer ad-dalu benthyciadau.*

*Felly, tra bo rhai o ddarpariaethau'r Rheoliadau hyn wedi cael eu gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Lloegr ac wedi cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru yn ôl yr arfer, mae llawer ohonynt wedi'u gwneud gan yr*

*Ysgrifennydd Gwladol sy'n ymestyn ledled y DU am eu bod yn berthnasol hefyd i'r bobl hynny a astudiodd yng Nghymru neu yn Lloegr ond sydd bellach wedi'u cyflogi (ac yn talu treth) yn yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon.*

*[Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.]*